# Telerau ac Amodau'r Cynnig Amodol o Gosb Benodedig

### Darllenwch y telerau ac amodau canlynol yn ofalus:

Er mwyn derbyn y cynnig o Gosb Benodedig, rhaid i chi allu cydymffurfio gyda **POB UN** o'r amodau canlynol, sy'n gofyn i chi gyflwyno manylion eich trwydded a gwneud taliad dilys o fewn y cyfyngiadau amser a fanylir yn yr hysbysiad hwn**. Gall methu a gwneud weld y drosedd yn arwain at erlyniad llys, sy'n debygol o achosi cosb ariannol uwch.**

### TALIAD

- Rhaid i'r taliad fod ar gyfer swm llawn y gosb benodedig. Ni dderbynnir taliad rhannol neu randaliadau
- Rhaid i'ch taliad llawn gael ei wneud o fewn y cyfyngiadau amser a amlinellir o fewn eich hysbysiad cosb benodedig. Ni ellir rhoi estyniad
- Amlinellir yr opsiynau talu sydd ar gael i chi ar y dudalen flaenorol, sy'n cynnwys gwasanaeth talu ar-lein cyflym a hawdd
- Os ydych yn talu gyda siec neu archeb post, gwnewch y rhain yn daladwy i 'HMCTS'
- Os ydych yn talu gyda siec, sicrhewch ei bod wedi'i llofnodi, bod y dyddiad cywir arni, bod swm y gosb arni a bod y geiriau a'r rhifau'n cyfateb. Ysgrifennwch rif eich hysbysiad cosb benodedig ar gefn eich siec.
- Peidiwch ag anfon parod drwy'r post

### TRWYDDED YRRU

**<u>DALIER SYLW</u>: Nid oes rhaid i chi anfon eich trwydded i'r Swyddfa Cosbau Penodedig er mwyn cydymffurfio gyda thelerau'r cynnig amodol hwn. Fodd bynnag, bydd angen i chi roi manylion trwydded yrru benodol o fewn y cyfyngiadau amser a roddir o fewn eich hysbysiad cosb benodedig er mwyn cydymffurfio gyda'r telerau hyn.**

Os, wrth gyflwyno manylion eich trwydded yrru fod y pwyntiau cosb ychwanegol am y drosedd hon yn arwain at gyfanswm eich pwyntiau presennol yn cyrraedd 12 neu fwy, yna ni fydd y weithdrefn cosb benodedig ar gael i chi. Cewch eich hysbysu os mai fel hyn y mae. Byddwch yn cael ad-daliad a byddwch yn derbyn hysbysiad o broses y llys faes o law.

### GYRWYR NEWYDD - DEDDF TRAFFIG FFORDD (GYRWYR NEWYDD) 1995

**(DALIER SYLW: Bydd y Ddeddf ond yn eich effeithio chi os gwnaethoch lwyddo yn y prawf am y tro cyntaf ar neu ar ôl 1 Mehefin 2007)**

Os ydych yn cyrraedd 6 pwynt cosb neu'n fwy o fewn dwy flynedd o lwyddo yn eich prawf gyrru (y cyfnod prawf), bydd yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) yn diddymu eich trwydded yn awtomatig ar ôl cael gwybod am yr ardystiad. Ar ôl cael gwybod, gwnaiff y DVLA ysgrifennu atoch chi er mwyn cadarnhau bod eich trwydded wedi'i diddymu (canslo). Mae pwyntiau cosb sy'n cyfrif tuag at y cyfanswm o 6 yn cynnwys unrhyw rai a gawsoch cyn llwyddo yn y prawf, cyhyd a bod y drosedd/troseddau wedi digwydd ddim mwy na 3 blynedd cyn y drosedd cosb benodedig.

Os diddymir eich trwydded o dan ofynion Deddf Traffig Ffordd (Gyrwyr Newydd) 1995 yna bydd rhaid i chi gael trwydded dros dro, gyrru fel dysgwr a llwyddo yn y prawf theori ac ymarferol eto er mwyn cael eich trwydded yrru lawn yn ôl. Noder: Ni fydd llwyddo yn yr ail brawf yn tynnu'r

pwyntiau cosb oddi ar eich trwydded yrru. Os ydy'r cyfanswm yn cyrraedd 12, rydych yn debygol o gael eich gwahardd.

## DEILIAD TRWYDDED Y TU ALLAN I'R DU YN UNIG

**DALIER SYLW: Wrth gyflwyno manylion eich trwydded a gwneud taliad, anfonir hysbysiad o ardystiad y drwydded yrru at yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA).**

**Os ydych wedi cyflawni trosedd ardystiadwy o'r blaen ym Mhrydain Fawr ac wedi derbyn pwyntiau cosb o ganlyniad, mae'n debygol y bydd gan y DVLA gofnod gyrrwr yn cynnwys eich manylion. Os mai fel hyn y mae, ac y canfyddir fod y pwyntiau cosb ychwanegol ar gyfer y drosedd hon yn arwain at gyfanswm eich pwyntiau presennol yn 12 neu fwy ar eich cofnod gyrrwr, yna rydych yn anaddas i gael eich ymdrin drwy gosb benodedig. Felly, ad-delir eich taliad, a byddwch yn derbyn hysbysiad o broses y Llys faes o law.**

## SUT I YMGEISIO AM DRWYDDED YRRU PRYDAIN FAWR NEWYDD

Os ydych angen ymgeisio am drwydded yrru Prydain Fawr newydd, er mwyn rhoi manylion eich trwydded o fewn y cyfyngiad amser a fanylir a derbyn y cynnig hwn o gosb benodedig, yna gallwch wneud drwy un o'r opsiynau canlynol:

- **Ar-lein –** Drwy ddilyn y ddolen GOV.UK ganlynol – www.gov.uk/apply-online-to-replace-a-driving-licence#other-ways-to-apply
- **Drwy'r post** – Drwy gwblhau ffurflen D1 sef 'Cais am Drwydded Yrru' sydd ar gael o'r mwyafrif o Swyddfeydd Post
- **Ffôn** - Drwy ffonio 0300 790 6801 (Llun – Gwe: 8am tan 7pm, Sad: 8am tan 2pm / yn debygol o newid). **Mae'r opsiwn hwn ond ar gael os nad ydy manylion eich trwydded wedi newid.** Dylid nodi hefyd na allwch ymgeisio dros y ffon os ydy eich trwydded wedi'i difrodi, neu os yw'n dod i ben mewn llai na 56 diwrnod (90 diwrnod os yw'n dod i ben am resymau meddygol)

**Noder:** Mae'r DVLA yn codi ffi er mwyn newid trwydded yrru sydd wedi mynd ar goll, wedi'i dwyn, wedi'i difrodi neu sy'n anghyflawn.

Ceir mwy o wybodaeth am drwyddedau gyrru drwy fynd ar:

**www.gov.uk/browse/driving/driving-licences**

## OES GENNYCH YMHOLIAD AC ANGEN CYSYLLTU Â RHYWUN?

Darllenwch delerau ac amodau'r cynnig amodol uchod yn ofalus cyn cysylltu ag un o'r asiantaethau perthnasol a restrir isod.

**Ar gyfer Ymholiadau Trwydded a/neu Talu YN UNIG –** cysylltwch â'r Swyddfa Cosbau Penodedig ar **:**

**Ffôn: Gogledd Cymru: 01745 539393 (llinell ffôn ar agor rhwng 09.30am a 12.30pm yn unig)**

**Canolbarth a De Cymru: 01443 660402 (llinell ffôn ar agor rhwng 08:00 a 12:00)**

**Ebost: Gogledd Cymru: scpu@northwales.police.uk**

**Canolbarth a De Cymru: swpctoadmins@south-wales.police.uk**

| |
|---|
| **Wedi colli eich trwydded yrru? –** cysylltwch a'r DVLA ar 0300 790 6801 neu dilynwch y ddolen GOV.UK ganlynol – Drwy www.gov.uk/apply-online-to-replace-a-driving-licence#other-ways-to-apply |
| **Am ymholiadau yn berthnasol i roi Hysbysiad Cosb Penodedig neu'r Drosedd –** cysylltwch â'r heddlu a roddodd yr hysbysiad ar:<br>**Ffôn: Gogledd Cymru: 01745 539393 (llinell ffôn ar agor rhwng 09.30am a 12.30pm yn unig)**<br>**Canolbarth a De Cymru: 01443 660402 (llinell ffôn ar agor rhwng 08:00 a 12:00)**<br>**Ebost: Gogledd Cymru: scpu@northwales.police.uk**<br>**Canolbarth a De Cymru: swpctoadmins@south-wales.police.uk** |